

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.
Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog
y Gaerwen, Nos Fawrth, 29ain TACHWEDD 2016.

PRESENNOL:

Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mrs Janet Hughes, Mr Mike Jones, Mr W Raymond Evans, Mr Edward J Thomas a Mr J Alun Foulkes (Clerc). Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:

Cyng Catherine Jane Hughes, Mr Ian Owen, Mr Meirion Thomas a Mr John Pritchard.
Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

- 1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
- 1.2 Nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb ar unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes ar y canlynol:

- 2.1 **Cwyn gor-yrru ar hyd Chapel Street a Chapel Terrace yn ogystal a cerbydau mawr trwm a oedd yn achosi difrod i waliau gerddi y cymdogion** – dim ymateb i lythyr y Clerc ar hyn o bryd.
- 2.2 **Adroddiad Problemau Carthffosiaeth Dŵr** – adroddiad bellach nad oedd Dŵr Cymru am leoli Tanc Ddŵr i ddal y glaw trwm ger Holland Arms ym Mhentre Berw oherwydd diffygion prynnu tir ger y safle ac fod cyfarfod pellach ar yr 8fed o Rhagfyr. Yn y cyfamser fe roedd Cyng Victor Hughes wedi ymweld a holl ardaloedd trafferthus Gaerwen a Phentre Berw yn ystod y glaw trwm diweddar ac ei fod wedi roi 'cones' ar manhole covers yr A5 er mwyn rhybuddio gyrrwyr tan y daeth gweithwyr Amey i roi arwyddion arnynt. Er fod tyfiant yn y nant sydd yn rhedeg trwy'r pentre, nid oedd hynny i weld yn amharu yn ormodol ar y llif.
- 2.3 **Ymgynghoriad Grid Cenedlaethol** – pwysleisiodd ei fod hi yn bwysig fod pob Cyngor Cymuned yn ymateb i'r ymgynghoriad. Hefyd, fe ddarllenodd y Clerc sylwadau Cynghorydd Raymond Evans i'r aelodau yn gofyn am cefnogaeth y Cyngor i'r ymgyrch brotest. Roedd y Cynghorydd Raymond Evans am lunio ymateb i'r Clerc anfon ar rhan y Cyngor Cymuned erbyn y dyddiad cau: 16 Rhagfyr 2016.
- 2.4 **Cynllun Cysylltiad Nwy Pentre Gaerwen** – cafwyd adroddiad pellach oddiwrth Cyng Hughes ac fe benderfynwyd trefnu diwrnod a cyfarfod agored dechrau'r flwyddyn er mwyn darganfod barn yr etholwyr. Roedd hyn mewn llaw.

Arwyddo.....

TUDALEN 1.

- 2.5. Parc Gwyddoniaeth** – penderfynwyd atal i'r Clerc Iunio llythyr cryf ar rhan y Cyngor Cymdeithas at Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Sir yn gofyn am rhesymau ac ymateb i pryderon yr aelodau gan fod Mr Pryderi ap Rhisiart o Cwmni M-SParc yn mynychu ein cyfarfod nesaf.

3 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

- 3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 8fed o Dachwedd 2016 yn gywir. (EPW/JH).

4 MATERION CAEAU CHWARAE.

- 4.1 Wâl Cae Chwarae Mawr – nodwyd fod y gwaith mewn llaw.
- 4.2 Cafwyd adroddiad fod sefyllfa sbwriel o gwmpas y Cae Chwarae Mawr wedi gwella ac yn parhau cadw golwg ar y sefyllfa.
- 4.3 Cafwyd adroddiad pellach ynghylch ac yswirio offer y Caeau Chwarae.
- 4.4 Yn dilyn y cyfarfod diwethaf - nodwyd ystyriaeth gosod arwyddion newydd yn y caeau chwarae mewn llaw.
- 4.5 Roedd Cyng Ian Owen am gysylltu gyda Dafydd Hughes er mwyn tacluso darn gyferbyn a Hen Siop Chemist ar Gardd Mileniwm.

5 MATERION LLWYBRAU.

- 5.1 Roedd yna ansicrwydd fod Mr O G Jones wedi gwneud y gwaith o dorri Llwybr y Rhos. Adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

6 MATERION PRIFFYRDD.

- 6.1 **Safle'r Gofeb** – disgwyl ymateb y Cyngor Sir i lythyr y Clerc yn gofyn am sefyllfa gosod llinellau melyn naill ochr mynedfa Lon Groes o'r A5.
- 6.2 **Parcio Mynedfa Stad Swm yr Engan & Bronllys** – disgwyl ymateb y Cyngor Sir i lythyr y Clerc yn nodi pryder yr aelodau i'r parcio ger mynedfa y ddwy stad a gofyn iddynt trefnu diwrnod cyfleus er mwyn ymweld a'r safle gyda aelod y Cyngor Cymdeithas yn bresennol ynghyd ac unrhyw safle arall sydd angen sylw.
- 6.3 **Lon Capel Berea i'r A5** – disgwyl ymateb y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cyngor Sir dorri'r gordyfiant gan mai nhw sydd yn gyfrifol pob blwyddyn.

Arwyddo.....

TUDALEN 2.

6.4 **Lon Cefn Du** – penderfynwyd anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ystyried gostwng cyflymdre o mynediad cyffordd yr A55 yr holl ffordd i Lon Ceint i 30mya.

7. **CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD & PENDERFYNIADAU Y CYNGOR SIR.**

7.1 **Dim Cais Cynllunio wedi ei dderbyn.**

8. **PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO Y CYNGOR SIR.**

8.1 Cais Gors Ddyga Malltraeth, Pentre Berw – 33C204B – CANIATĀD.

9 **MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAID RISG.**

9.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**

Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Tachwedd 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

9.2 **Gweinyddu & Rheoli Risg:**

9.2.1 Dim adroddiad.

9.3. **Taliadau:**

Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 9.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

223	Mr Dafydd Hughes	Torri Caeau Chwarae Mis Medi & Mis Hydref	£ 400.00
224	Mr Dafydd Hughes	Torri Llwybr Rhif 16	£ 110.00
225	Mr O G Jones	Torri Llwybrau	£ 120.00 + TAW

9.4 **Adroddiad Archwilydd Allanol.**

Rhodddwyd adroddiad oddiwrth y Clerc fod Cwmni Archwilio Allanol wedi cwblhau'r archwiliad ar gyfer y Flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2016. Tynnir sylw i'w sylwadau er mwyn helpu'r Cyngor wella eu rheolaeth fewnol neu eu harferion gwaith ac argymhellir fod y Cyngor yn ystyried y rhain ond nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol I weithredu arnynt, sef darparu llythyr er mwyn penodi'r archwilydd mewnol. Hefyd nid oedd cofnod mewn lle yn cadarnhau penodi'r archwilydd mewnol. Roeddynt hefyd yn feirniadol nad oedd y Cyngor wedi monitro yn ddigonol ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol ac wedi dangos potensial o ddifyg rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus ac felly yn agored i'r risg o orwario. Argymhellir y dylai y Cyngor monitro y gyllideb o leiaf bob chwarter ac o bosib sicrhau fod arian yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif cadw er mwyn ufuddhau lefel y praesept. Yn olaf, nodir fod pwerau gwariant S137 wedi'u ddefnyddio'n amhriodol ac fe fydd rhaid adolygu'r rhestr grymoedd statudol er mwyn sefydlu a oes grym yn bodoli cyn dibynnu ar Adran 137 I awdurdodi taliad a cofnodi'r grym statudol ar gyfer pob taliad er mwyn dangos fod y Cyngor wedi dilyn eu rheolau sefydlog ac ariannol.

Arwyddo.....

TUDALEN 3.

10. ADRODDIADAU.

10.1 Adroddiad oddiwrth Cyng Einion P Williams yn dilyn cyfarfod Fforwm Cyswllt yn Siambr y Cyngor Sir ar y 24ain Dachwedd 2016.

11. GOHEBIAETH

11.1 Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn – penderfynwyd enwebu Cyng Einion P Williams i ddod yn aelod o'r Fforwm. Clerc i anfon cadarnhad i'r Cyngor Sir.

11.2 Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2017-2018 y Cyngor Sir – dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad: 16 Rhagfyr 2016.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24ain IONAWR 2017.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:20yh.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.

TUDALEN 4.